**Sesiwn 2000-2001 Rhif 04**

**PAPURAU BUSNES**

**DYDD MERCHER, 17 MAI 2000**

**RHAN 1 – ADRAN A**

**AGENDA**

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Jane Hutt – Ysgrifennydd Iechyd** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Tom Middlehurst – Ysgrifennydd dros Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Mesur Cerydd Gyflwynwyd gan: Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); David Davies (Mynwy); Jonathan Morgan (Canol De Cymru); Peter Rogers (Gogledd Cymru); Alun Cairns (Gorllewin De Cymru); William Graham (Dwyrain De Cymru); David Melding (Canol De Cymru); Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**
Mae'r Cynulliad hwn yn ceryddu Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am ei methiant i fynd i'r afael â phryderon Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy fethu â sicrhau amgylchedd heb gnydau GM

**Penodi Archwilydd Cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol ag adran 94(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi Owen, Thomas and Co. i archwilio cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gosodwyd copi o'r llythyr yn gwahodd tendrau, a'r Fanyleb ac Amodau'r Contract ar gyfer y Gwasanaethau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2000

**Dirprwyo Swyddogaethau Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd Cymru**
Cynnig bod y Cynulliad, gan weithredu o dan Adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad holl swyddogaethau'r Cynulliad yn ôl neu o dan Reoliadau Cronfeydd Strwythurol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2000 OS 2000/906 a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant (gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai

2000) ac o dan yr Offerynnau Dynodiad a wnaed gan y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2000)

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol.

(1+3)

(2)

(4)

**Gwelliant 1 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**
Ar linell 1, yn lle 'Cynulliad, rhodder y geiriau 'Cynulliad Cenedlaethol'.

**Gwelliant 2 - Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**
Ar ôl "y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd", ychwaneger:

ac yn cytuno i ymgynghori'n llawn â'r pwyllgorau pwnc perthnasol wrth arfer y swyddogaethau uchod.

**Gwelliant 3 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**
Ar ddiwedd y cynnig, dileer yr atalnod llawn ac ychwaneger:

' ….a bod y Prif Ysgrifennydd yn adrodd bob blwyddyn i'r Cynulliad Cenedlaethol sut mae ef/hi wedi arfer y pwerau dirprwyedig.'

**Gwelliant 4 - Mike German (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig: "Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn gostwng awdurdod y Cynulliad llawn neu'n cyfyngu ar swyddogaeth Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y pwerau uchod."

**Dadl ar Orchymyn Rhan 7 o dan adran 59 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** (i ganiatáu arallgyfeirio economaidd adeiladau amaethyddol presennol er mwyn gallu eu trosi ar gyfer defnydd diwydiannol ysgafn neu fusnes heb yr angen i wneud cais cynllunio, drwy ddiwygio Gorchymyn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995)

Mae'r Cynulliad yn penderfynu cyfarwyddo Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chynllunio i gyflwyno Gorchymyn drafft dan adran 59 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yr amcanion i'w cyflawni gan y Gorchymyn hwn yw:

- Galluogi arallgyfeirio economaidd ar gyfer adeiladau amaethyddol sydd wedi cael eu defnyddio i ddibenion amaethyddol ers 5 mlynedd neu fwy trwy ddiwygio Gorchymyn

Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995

- Rhoi hawliau datblygiadau a ganiateir ar dir amaethyddol sy'n cynnwys uned amaethyddol o 5 hectar o leiaf er mwyn i adeiladau amaethyddol cyfredol ar y tir allu cael eu defnyddio trwy i) cymhwyso'r defnydd a ddaw dan Ddosbarth B1 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a ii) caniatáu addasiadau ac estyniadau cyfyngedig i'r adeiladau hynny yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd o'r fath

Bydd y Gorchymyn yn gymwys i Gymru gyfan

(Mae dadansoddiad budd y costau wedi’i gyflwyno i ategu’r ddadl hon)

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**
Ar ôl y geiriau 'Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990' ychwaneger:

"ac oherwydd yr argyfwng presennol yng nghefn gwlad Cymru, bod y gorchymyn hwn yn cael ei gyflwyno yn ddiymdroi"

**Dadl ar ddyfodol y Gwasanaethau Dwr yng Nghymru**
Cynnig bod y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd Grp Hyder a’r gwasanaethau dr a thrydan rheoledig i economi, amgylchedd ac isadeiledd Cymru; mae’n croesawu ac yn cymeradwyo’r ffaith bod y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd yr Amgylchedd wedi cwrdd â’r rhai a allai gynnig prynu Hyder a cheisio cael sicrwydd ganddynt ynghylch diogelu cyfanrwydd y Grp, y rhai a gyflogir ganddo, a’r amgylchedd yng Nghymru, a diogelu buddiannau defnyddwyr yng Nghymru; ac mae’n nodi gweithredoedd arfaethedig rheoleiddwyr y diwydiant dr a thrydan, sy’n ceisio sicrhau ymrwymiadau a gwelliannau i drwyddedi er mwyn diogelu buddiannau cwsmeriaid a sicrhau bod rhaglenni buddsoddi’r gwasanaethau rheoledig yn parhau i gael eu darparu

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol.

(1+3+5)

(2+4)

(6)

**Gwelliant 1 - Dafydd Wigley (Caernarfon);**

Ar linell 1, yn lle ‘Cynulliad’, rhodder y geiriau ‘Cynulliad Cenedlaethol’

**Gwelliant 2 - Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

Ar ôl "Cynnig bod y Cynulliad", ychwaneger:

"yn condemnio rôl y Llywodraeth am ddinistrio sylfaen ariannol Hyder trwy’r dreth ffawdelw;"

**Gwelliant 3 - Dafydd Wigley (Caernarfon);**

Ar linell dau a thri, yn lle ‘croesawu ac yn cymeradwyo’, rhodder ‘nodi’.

**Gwelliant 4 - Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

Ar ôl y "gwasanaethau rheoledig yn parhau i gael eu darparu", ychwaneger

"a geilw ar y Prif Ysgrifennydd i geisio ymrwymiad gan y sawl all brynu’r grwp i gadw’r brif swyddfa yng Nghymru, i gydnabod yr angen am dwf, i gynnal undod y cwmni ac i gwrdd â’r ymrwymiadau amgylcheddol presennol"

**Gwelliant 5 - Dafydd Wigley (Caernarfon);**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

"Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn gresynu’r ffaith nad oes ‘cyfran euraid’ ar gyfer y gwasanaeth dwr rheoledig a breifateiddiwyd, a geilw ar yr Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd i ddod â chynigion ger bron i ddiogelu buddiannau’r adnodd naturiol gwerthfawr hwn a’r rheini o eiddo defnyddwyr dwr yng Nghymru.’

**Gwelliant 6 - Mike German (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig: "Mae’r Cynulliad hwn yn gresynu mai dim ond cyfran fechan o gwmnïau o Gymru sydd wedi’u rhestru ar y Gyfnewidfa Stoc, ac mae’n cydnabod ei bod yn bwysig sicrhau bod unrhyw berchennog newydd fydd gan Hyder yn cynnal y craidd o arbenigedd sydd gan Hyder ym maes rheoli yng Nghymru."

**Dadl Fer:** (i ddechrau erbyn 5pm)
**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Llygredd mewn Llywodraeth Leol

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 23 Mai 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**